

**Deddf Erthylu 1967 – Dirymu Cymeradwyo Dosbarth ar Fan Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd (Cymru) 2022**

26 Awst 2022

Daw'r dirymiad hwn i rym yn unol â pharagraff 2.

**Dirymu cymeradwyaeth dosbarth ar fan**

1. Mae'r gymeradwyaeth a wnaed ar 24 Chwefror 2022 gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1(3) a (3A)(1) o Ddeddf Erthylu 1967(2) wedi ei dirymu.

**Cychwyn**

2. Daw'r dirymiad hwn i rym ar ddechrau'r diwrnod ar 30 Awst 2022.

*Eluned Morgan*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

26 Awst 2022

---

(1) Mewnosodwyd adran 1(3A) gan adran 37(3) o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) 1967 p. 67.